# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 1

YSMYGU

*Mangreoedd di-fwg*

### 12 Meysydd chwarae cyhoeddus

(1) Mae mangre yng Nghymru yn fangre ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon i'r graddau y mae'n faes chwarae cyhoeddus.

(2) O ran y fangre—

(a) os yw o fewn ffiniau sydd wedi eu marcio'n glir, mae'n ddi-fwg yn yr ardal gyfan o fewn y ffiniau hynny;

(b) fel arall, nid yw'n ddi-fwg ond i'r graddau y mae o fewn pum metr i unrhyw eitem o gyfarpar maes chwarae.

(3) Mae'r fangre yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon drwy'r amser.

(4) Mae mangre yn faes chwarae cyhoeddus at ddibenion yr adran hon—

(a) os yw wedi ei dylunio neu ei haddasu ar gyfer defnyddio un neu ragor o eitemau o gyfarpar maes chwarae gan blant,

(b) os oes gan awdurdod lleol neu gyngor cymuned, neu berson sy'n gweithredu yn rhinwedd trefniadau a wneir gydag awdurdod lleol neu gyngor cymuned, reolaeth drosti neu os yw i unrhyw raddau yn ymwneud â'i rheoli neu ei chynnal a'i chadw, neu'n gwneud trefniadau mewn cysylltiad â rheolaeth drosti, neu ei rheoli neu ei chynnal a'i chadw,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 12 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(c) os yw ar agor i'r cyhoedd, at ddiben (neu at brif ddiben) darparu cyfleusterau chwarae i blant, a

(d) os nad yw'n gaeedig nac yn sylweddol gaeedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 12 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 12 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2